

CYNGOR CYMUNED BETHESDA BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
Nos Iau 27ain Ionawr 2022

PRESENNOL:

Ward Ogwen

Y Cynghorydd Neville Hughes

Y Cynghorydd Griff Morris

Y Cynghorydd Walter Williams

Y Cynghorydd Mary Jones

Y Cynghorydd Einir Williams

Y Cynghorydd Gwilym Owen

Y Cynghorydd Bleddyn Williams

Ward Gerlan

Y Cynghorydd Ann Williams

Y Cynghorydd Linda Brown

Ward Rachub

Y Cynghorydd Godfrey Northam

Y Cynghorydd Michael Williams

Y Cynghorydd Pearl Evans

Cyngor Sir

Y Cynghorydd Paul Rowlinson

Y Cynghorydd Rheinallt Puw

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Bleddyn Williams
Ymddiheuriadau –gan y Cyng. Dyfrig Jones

2. Datgan Diddordeb

Dim i'w ddatgan.

3. Chris Roberts – Hwylusydd Cymunedol GwyrddNi

Cafwyd cyflwyniad gan Chris am ei waith ac am y Cynulliad fydd yn cael ei lawnsio yn fuan.

Bydd gwahoddiad i bawb yn y Dyffryn ac byddent yn chwilio am 50 o aelodau ym mhob dyffryn.

4. Materion Brys

4.1 Stryd Fawr Rachub - Royal Oak hyd at Capel Carmel wedi ei ail-wynebu, ond y llinellau melyn ddim wedi eu ail-paentio. Parcio peryglus yn digwydd yno. Angen ebstio Cyngor Gwynedd.

4.2 Bysus Arriva wedi rhoi'r gorau i stopio dros ffordd i Maes Bleddyn (pan yn teithio adref o Fangor). Angen cysylltu gyda Arriva i'w holi.

5. Cofnodion

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion

6.1 Rhos y Nant – problem gyda dŵr yn sefyll - Cyng. Rheinallt Puw. Ar y gweill.

- 6.2 CCTV Stryd Fawr – ar y gweill – y Clerc.
- 6.3 Arwyddion stryd – ar y gweill – y Clerc.
- 6.4 Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – Cyng. Rheinallt Puw.
- 6.5 Cae chwarae Rachub – Contractwr am anfon llythyr at Cyngor Gwynedd.
- 6.6 Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – ar y gweill.
- 6.7 Ceblau uwchben yr A5 – dal un heb i'w wneud – y Clerc i holi.
- 6.8 Llain o dir Stryd y Ffynnon, Gerlan – Adra i lanhau cyn gynted a phosib yn y flwyddyn newydd.
- 6.9 Adroddiad Archwilio Cymru. Yr ymateb drafft wedi ei gymeradwyo. Trefniadau mewn lle iddo ymddangos yn y Daily Post.
- 6.10 Parcio dros ffordd i Londis – Cyngor Gwynedd am fonitro mwy aml.
- 6.11 Ffin Cae Rhosydd a Llwyn Bedw – yr aelodau yn hapus i'r ffin symud, ond angen gwirio gyda Cyngor Llanllechid hefyd.

7. Llochesi bws

Penderfynwyd holi Adra am ganiatad i osod lloches bws ger mynediad Maes Bleddyn.

8. Diffibrilwyr

Clwb Pel-droed Bethesda yn awyddus cael gosod diffib yn eu maes parcio, ac yn holi am gymorth gan y Cyngor Cymuned.

Soniwyd hefyd nad oes un wedi ei leoli ym Mhlas Ogwen. Syniad efallai gosod un ar y polyn gyferbyn â Rhos y Nant, ar gyfer yr ardal yma o Bethesda.

Trafodwyd hefyd cael taflen wybodaeth am leoliad y diffibrilwyr yn y plwy, ac hefyd trefnu hyfforddiant i'r cyhoedd. Y Clerc i drefnu.

9. Côt Ymddygiad a Protocol Datrysiadau Lleol

Penderfynwyd derbyn y protocol datrysiad lleol a'r côd ymddygiad yn ei gyfanrwydd.

10. Archeb 2022-23

Penderfynwyd ar yr archeb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £126,179. (Gweler Atodiad A) Y Clerc i anfon y ffurflen at Gyngor Gwynedd.

11. Adroddiad Partneriaeth Ogwen

Adroddwyd bod cyfarfod brys wedi ei gynnal heddiw i gytuno ac arwyddo dogfennau ar gyfer pryniant adeilad yr hen Spar. Hefyd y Bwrdd Rheoli wedi cytuno bydd staff y Bartneriaeth yn cael diwrnod o wyliau ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.

12. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Cyfarfod Blynyddol CAB – cafwyd adroddiad gan y Cyng. Mary Jones.

13. Maes parcio Gerlan

Cafwyd rhagor o wybodaeth am y sefyllfa gan Cyngor Gwynedd.

14. Gohebiaeth

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynoded o ohebiaeth Ionawr 2022'

14.1 Ebst gan Cyngor Tref Nefyn – aelodau i ymateb fel unigolion i'r ymgynghoriadau.

14.2 Ebst gan Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi – yr aelodau i ymateb fel unigolion.

14.3 E-bost gan Llywodraeth Cymru – ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Penderfynwyd bydd pawb yn ymateb fel unigolion. Y Clerc i anfon ymateb ar ran y Cyngor hefyd.

14.4 Un Llais Cymru – Trais yn erbyn menywod – penderfynwyd bydd pawb yn ymateb fel unigolion.

14.5 Plaid Cymru – problemau carthffosiaeth lleol – adrodd am unrhyw broblemau yn ein plwy ni.

14.6 Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref – pawb i ddarllen y ddogfen a dod a unrhyw sylwadau yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

14.7 Hyfforddiant Un Llais Cymru – cysylltu gyda'r Clerc os oes rhywun gyda diddordeb mynychu

14.8 Twristiaeth Cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri – digwyddiad 7fed Chwefror – y Cyng. Bleddyn Williams am fynychu.

14.9 Cyngor Llandygai – diffyg ymateb gan Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd anfon y tystiolaeth iddynt, ac hefyd yn uniongyrchol i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd.

14.20 SCCH Iwan Owen wedi gadel ei swydd. Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r pentref dros y blynyddoedd.

15. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio

Penderfyniadau

C20/0716/13/LL

1 Lon Sarnau, Bethesda

Cais ar gyfer trosi modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda'

Penderfyniad: Ar y gweill.

C20/0152/13/LL

4 Rhes Ogwen

Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghyd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0855/13/RC

Maes Yr Onnen Stryd Britannia, Rachub

Diddymu cytundeb o dan Adran 106 ar ganiatâd rhif C08A/0444/13/AM sy'n datgan mai'r tŷ oedd yn destun y caniatâd cynllunio yw'r unig adeilad sydd i'w godi ar y safle gyda gweddill y safle yn aros fel man agored.

Penderfyniad: Wedi ei ganiatáu, heb amodau.

C21/1031/13/LL

Siloam, Allt Pen y Bryn, Bethesda

Estyniad a newidiadau i'r modurdy presennol er mwyn creu tŷ newydd.

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/1055/13/DT

7 Maes Coetmor, Bethesda

Cais ar gyfer codi estyniad
deulawr i gefn yr eiddo

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag
amodau.

C21/0971/13/LL

Kings Head, 51 Stryd Fawr, Bethesda

Newid defnydd uned byw yn 5
ystafell wely i westeion yn
gysylltiedig ar tŷ tafarn

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/1007/13/CR

Kings Head, 51 Stryd Fawr, Bethesda

Addasiadau mewnol ac allanol i dŷ
tafarn

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/1170/13/AC

Neuadd Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda

(Y Cyng. Dyfrig Jones wedi datgan diddordeb)

Cais ar gyfer diwygio amod 2 o
ganiatâd cynllunio cyfeirnod
C20/0191/13/LL er
mwyn creu estyniad ochr, newid
defnydd a cysylltu adeiladau ochr
y neuadd i ystafelloedd
gweithgareddau (dosbarth
defnydd D2), codi cysgodfa yn yr
iard ochr a man newidiadau eraill
i'r adeiladau er mwyn diwygio'r
cynlluniau a ganiatawyd

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag
amodau

C21/1168/13/RA

Neuadd Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda

(Y Cyng. Dyfrig Jones wedi datgan diddordeb)

Cais ar gyfer rhyddhau amod 4
(Manylion blychau ystlumod a
gwennoliaid) o ganiatâd cynllunio
cyfeirnod C20/0191/13/LL

Penderfyniad: Amodau wedi eu
rhyddhau yn llawn.

Ceisiadau**C21/1213/13/DT**

3 Cilfodan, Carneddi

Cais ar gyfer codi estyniad ffenestr
gromen.

Penderfyniad: Dim
gwrthwynebiad.

C21/1215/13/RA

Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda

Rhyddhau amod 4, 9, 10 ac 12 o
ganiatád cynllunio

C20/0018/13/LL

Penderfyniad: Nid ydym yn
gefnogol o'r defnydd o lechi
Sbaeneg ar y tô .

Hefyd mae bwriad o roi cladding
pren ar ran o'r tu allan. Rydym o'r
farn na fydd hyn yn gweddu o
gwbl i'r tai o gwmpas nac i ardal
Bethesda

14. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

Cyflogau (Ionawr)	£349.30
CThEM (Ionawr)	£86.80
Dŵr Cymru – Llys Dafydd	£24.55
Scottish Power – trydan Gorffwysfan	£96.16
Scottish Power – golau Nadolig	£13.10
C L Jones – cynnal a chadw Gorffwysfan	£960.18
Partneriaeth Ogwen	£96.72
Partneriaeth Ogwen	£789.32
C Jackson – cynnal a chadw llwybrau	£390.00
Pritchard's – coeden Nadolig	£240.00
Cyng. Ann Williams – mins peis	£13.00
Cyng. Mary Jones – anrhegion Plas Ogwen	£56.25